# Llamu Ymlaen – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3048A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Byddai ystyried a cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy amlwg yn arwain at ddealltwriaeth fwy cyflawn am yr heriau a gyflwynir gan asedau adeiladau a gweithlu'r Cyngor, ac yn arwain at weledigaethau, strategaethau a chynlluniau gwell.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Asedau 8

Mae'r Cyngor yn deall yr heriau a gyflwynir gan ei bortffolio tir ac adeiladau ond nid yw wedi datblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer ei asedau na'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig eto 8

Mae'r Cyngor wedi rhesymoli a moderneiddio rhan o'i sylfaen asedau a'i fodel darparu gwasanaethau, ond nid yw hyn yn cael ei lywio gan weledigaeth gorfforaethol glir eto 9

Bydd diffinio ac adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy ar gyfer ei sylfaen asedau'n cryfhau gallu'r Cyngor i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau 10

Y gweithlu 10

Mae gan y Cyngor weledigaeth a themâu cyflawni allweddol ar gyfer ei weithlu a all gael eu cryfhau trwy ystyriaeth mwy amlwg o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gwreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig 10

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr ac mae'n ymatebol i'r heriau o ran y gweithlu, ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu strategaethau integredig tymor hirach ac wedi cychwyn ar wneud hynny 11

Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg ar faterion cyfredol o ran y gweithlu ond mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o ddata a defnyddio meincnodi i fesur llwyddiant cyfredol a thymor hwy ei fentrau mewn perthynas â'r gweithlu 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, fe wnaeth yr adolygiad hwn ystyried sut y mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

2 Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu:

a. ar gyfer asedau, roedd ein prif ffocws ar swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ei drigolion; a

b. ar gyfer y gweithlu, bu ein ffocws ar yr heriau a amlygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai materion hirsefydlog o ran y gweithlu.

Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol ar gyfer defnyddio'i asedau a'i weithlu, sut y mae'n monitro'r defnydd ohonynt a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

3 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod y Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- egluro'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn unigol ac mewn partneriaeth i gryfhau ei drefniadau yn ogystal â gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach; ac
- ysbrydoli'r Cyngor a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer a gwersi nodedig a gwneud argymhellion priodol.

5 Mae hyn yn bwysig am bod Cyngor Sir Ynys Môn yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei asedau adeiladau a'i weithlu. Dangosir peth gwybodaeth allweddol o 2020-21 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: data allweddol sy'n ymwneud ag asedau adeiladau a'r gweithle.**

| | |
|---|---|
| Nifer yr adeiladau yr oedd y Cyngor yn berchen arnynt yn 2020-21 | 616 o asedau tir ac adeiladau, a 3,855 o anheddau yn y stoc dai |
| Gwerth eiddo, o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021 | Oddeutu £196 miliwn |
| Nifer y staff | 2,532 |
| Gwariant ar y gweithlu | £95 miliwn sy'n cyfateb i 43% o Wariant Gros y gellir ei godi ar y Gronfa Gyffredinol |
| Y ganran o'r gweithlu a oedd yn staff gwrywaidd | 24.0% |
| Y ganran o'r gweithlu a oedd yn staff benywaidd | 76.0% |
| Y ganran o'r staff sy'n gweithio'n llawn-amser | 55.6% |
| Y ganran o'r staff sy'n gweithio'n rhan-amser | 44.4% |
| Y ganran o'r staff sydd dros 55 oed | 22.8% |
| Nifer y staff a adawodd y Cyngor o'u gwirfodd yn 2020-21 | 165 |

6 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y galw am adeiladau a'r ffordd y mae staff yn gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rhai o'r effeithiau hyn a'r ffordd y mae'r Cyngor yn cael budd o'r effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru'r risgiau sy'n deillio o'r effeithiau negyddol wrth gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

7 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Chwefror 2022.

## Yr hyn a ganfuom

8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid? Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi adnabod rhai o effeithiau uniongyrchol y pandemig yn ogystal â rhai materion gweithredol a materion o ran llywodraethu a waethygwyd gan y pandemig.

9 Ar y cyfan, canfuom y byddai ystyried a cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy amlwg yn arwain at ddealltwriaeth fwy cyflawn am yr heriau a gyflwynir gan asedau adeiladau a gweithlu'r Cyngor, ac yn arwain at weledigaethau, strategaethau a chynlluniau gwell.

10 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn deall yr heriau a gyflwynir gan ei bortffolio tir ac adeiladau ond nid yw wedi datblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer ei asedau na'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig eto;
- mae'r Cyngor wedi rhesymoli a moderneiddio rhan o'i sylfaen asedau a'i fodel darparu gwasanaethau, ond nid yw hyn yn cael ei lywio gan weledigaeth gorfforaethol glir eto;
- bydd diffinio ac adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy ar gyfer ei sylfaen asedau'n cryfhau gallu'r Cyngor i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau;
- mae gan y Cyngor weledigaeth a themâu cyflawni allweddol ar gyfer ei weithlu a all gael eu cryfhau trwy ystyriaeth mwy amlwg o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gwreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig;
- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr ac mae'n ymatebol i'r heriau o ran y gweithlu, ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu strategaethau integredig tymor hirach ac wedi cychwyn ar wneud hynny; ac
- mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg ar faterion cyfredol o ran y gweithlu ond mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o ddata a defnyddio meincnodi i fesur llwyddiant cyfredol a thymor hwy ei fentrau mewn perthynas â'r gweithlu.

## Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**<br>A1 Mae angen i'r Cyngor arddangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan wreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig, wrth iddo:<br>• ddatblygu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer siâp a maint ei asedau tir ac adeiladau a'i weithlu yn y tymor byr, canolig a hir;<br>• datblygu strategaeth asedau sydd yn amlygu ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi'u hintegreiddio'n llawn â blaenoriaethau allweddol megis y rhaglenni Moderneiddio a Carbon Sero Net;<br>• diweddaru strategaeth y gweithlu sydd yn amlygu ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi'u hintegreiddio'n llawn â blaenoriaethau allweddol megis y rhaglenni Moderneiddio a Carbon Sero Net; a<br>• datblygu cynlluniau cyflawni wedi'u costio. |
| **Data a meincnodi**<br>A2 Datblygu'r defnydd o ddata a meincnodi i gynllunio, gosod y gyllideb a monitro ac asesu llwyddiant tymor hwy ei fentrau o ran asedau a'r gweithlu. |

# Adroddiad manwl

## Asedau

### Mae'r Cyngor yn deall yr heriau a gyflwynir gan ei bortffolio tir ac adeiladau ond nid yw wedi datblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer ei asedau na'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig eto

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- fe wnaeth y pandemig hi'n ofynnol i swyddi a oedd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd gael eu gwneud yng nghartrefi unigolion. Roedd agenda foderneiddio'r Cyngor eisoes wedi arfogi'r gweithlu â gliniaduron, a fu o gymorth gyda phontio i weithio gartref. Ers hynny mae'r Cyngor wedi nodi'r angen i fuddsoddi arian ychwanegol mewn meysydd fel trwyddedu meddalwedd, ac mae'n rhoi system ffôn newydd ar waith.
- mae Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23 yn cyflwyno ffordd newydd o weithio hybrid ar gyfer staff ac aelodau etholedig sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd, a bydd yn galluogi monitro, dysgu ac addasu pellach.
- mae'r Cyngor yn cydnabod bod newidiadau'n angenrheidiol, a bod angen diffinio lleoliadau gwaith a gofynion ehangach ar gyfer asedau y dyfodol, a nes y bydd hyn wedi'i gwblhau ceir peth ansicrwydd ynghylch beth fydd yr anghenion o ran asedau yn y dyfodol.
- mae'r Cyngor wedi ymgynghori â thrigolion i lunio'i flaenoriaethau, ac fe wnaeth hynny mewn partneriaeth gyda Medrwn Môn, Age Cymru a Dechrau'n Deg. Mae'r gweithgarwch hwn yn helpu i lunio blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer ei asedau.
- fe fabwysiadodd y Cyngor 'Gynllun Tuag at Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025' ym mis Mawrth 2022, a bydd yn diweddaru strategaethau allweddol eraill yn gynnar yng nghyfnod y weinyddiaeth newydd. Mae cyfle i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn gyson â'i gilydd ac wedi'u hintegreiddio, fel bod y Cyngor yn gallu gwneud yn siŵr bod ei ddull o reoli asedau'n dwyn y gwerth gorau posibl ac yn helpu i gyflawni amcanion corfforaethol ehangach. Mae'r cynlluniau'n cynnwys:
  - Cynllun y Cyngor;
  - y Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd; a
  - strategaethau allweddol, megis y Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025, a'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion (Diweddariad 2018), y mae angen eu datblygu, eu diweddaru a'u costio i fwydo i mewn i'r weledigaeth a'r cynllun asedau corfforaethol.
- nid yw gwasanaethau wedi adnabod eu hanghenion cyfredol a thymor hwy o ran asedau. Mae rhai o'r asedau wedi heneiddio, mae anghenion

defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr yn newid dros amser, ac mae cost ariannol trawsnewid y sylfaen asedau'n anhysbys.

- nid yw'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Adeiladau 2015-2020 wedi cael ei ddiweddaru ac mae'n hen. Mae swyddogion wedi cael eu penodi i swyddi newydd i arwain ar Gyfalaf a Newid Hinsawdd, ac mae bwriad i symud asedau o'r gwasanaethau Cyllid ac Eiddo i alluogi golwg sefydliad cyfan ar anghenion y Cyngor.
- mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf, gan gynnwys adeiladau; fodd bynnag, mae angen diweddaru cynlluniau a dylent fod yn fwy hirdymor o ran eu natur. Mae angen i gynghorau fod yn ymwybodol y gallai newid bob yn dipyn, heb weledigaeth drosfwaol a chynlluniau cyflawni, fynd â hwy i'r cyfeiriad anghywir.
- mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus daro cydbwysedd rhwng anghenion y presennol a'r dyfodol. Mae angen i'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w strategaeth asedau newydd a chynlluniau ategol i'w helpu i wireddu ei ddyheadau o ran darparu gwasanaethau, yn awr ac yn y dyfodol. Dylai hyn helpu i sicrhau bod ei asedau'n dwyn yr effaith fwyaf bosibl, ar draws ystod o'i amcanion.

## Mae'r Cyngor wedi rhesymoli a moderneiddio rhan o'i sylfaen asedau a'i fodel darparu gwasanaethau, ond nid yw hyn yn cael ei lywio gan weledigaeth gorfforaethol glir eto

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom fel a ganlyn:

- cyn y pandemig roedd y Cyngor wedi lleihau nifer y swyddfeydd y roedd yn gweithredu ohonynt ac mae wedi trosglwyddo rhai asedau a'r broses o ddarparu rhai gwasanaethau i'r gymuned ehangach.
- roedd y Cyngor eisoes wedi symud i weithio yn fwy ystwyth ar gefn ei brosiect gweithio yn gallach, a mae'r pandemig wedi helpu i symud rhai agendâu yn eu blaenau'n gyflymach nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gartref, cyfarfodydd rhithwir, a llai o deithio.
- bu newid mewn mynediad at wasanaethau: mae llawer o ddefnyddwyr wedi bod yn cael mynediad at wasanaethau'n ddigidol, ynghyd â lleihad mewn mynediad wyneb-yn-wyneb traddodiadol. Fe glywon ni fel rhan o'n gwaith maes fod teulu, cymdogion a ffrindiau'n aml yn cynorthwyo unigolion sy'n cael mynediad digidol yn anodd.
- mae'r pandemig wedi darparu rhai cyfleoedd i'r Cyngor gynnig ei asedau i gyrff cyhoeddus eraill, megis darparu canolfannau hamdden ar gyfer gwasanaethau bydwreigiaeth.
- mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn 'methu â newid y byd ar ei ben ei hun' ac mae wrthi'n frwd yn ceisio partneru gyda sefydliadau a all ei helpu i

ddwyn manteision gwirioneddol, ond mae'n cydnabod bod rhai partneriaethau'n darparu mwy o werth ychwanegol na'i gilydd.

### Bydd diffinio ac adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hwy ar gyfer ei sylfaen asedau'n cryfhau gallu'r Cyngor i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor wedi datblygu ei ddealltwriaeth am sut y bydd y defnydd o asedau'n newid yn y dyfodol, ond nid yw'n bwriadu cynnal adolygiad cyflawn nes bod y Cyngor yn ystyried ei fod ar ddiwedd y pandemig.
- nid yw'r Cyngor wedi datgan yr hyn y mae arno eisiau ei gyflawni dros y tymor byr, canolig a hwy ar gyfer ei sylfaen asedau; gan hynny, mae'n anodd adolygu cynnydd, yn enwedig gan nad oes ganddo unrhyw fesurau sy'n ymwneud ag asedau fel rhan o'i adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Hefyd, nid oes adolygiad o effaith y newidiadau bob yn dipyn sy'n digwydd. Bydd gwybod yn glir beth mae arno eisiau ei gyflawni'n galluogi'r Cyngor i ddatblygu a phennu mesurau, a fydd yn ei dro'n galluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd ac effaith.
- nid yw'r Cyngor wrthi'n defnyddio meincnodi fel rhan o'i ddull i ddeall ei berfformiad ei hun yn well ac adnabod meysydd ar gyfer gwella.

## Y gweithlu

### Mae gan y Cyngor weledigaeth a themâu cyflawni allweddol ar gyfer ei weithlu a all gael eu cryfhau trwy ystyriaeth mwy amlwg o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gwreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor o'r farn bod rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn bwysicach nag erioed, yn enwedig yn ystod ac ar ôl y pandemig ac mae sicrhau parhad busnes yn rhan hanfodol o ddylunio gwasanaethau cydnerth.
- mae Cynllun y Cyngor 2017-2022 yn nodi: 'Hyrwyddo prentisiaethau a sicrhau bod gan bobl ifanc ac oedolion y sgiliau cywir a'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer y byd gwaith. Byddwn hefyd yn creu cyfleoedd o fewn y Cyngor i ddatblygu ein staff' fel un o'r camau allweddol i gyflawni ei amcan 'Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir'.

- mae Cynllun Trosiannol Ynys Môn (ar ôl y pandemig) 2022-23 yn nodi pwysigrwydd staff, sicrhau eu diogelwch a'u lles, a chyflawni ffyrdd hybrid newydd o weithio a mecanweithiau darparu newydd.
- mae Strategaeth Pobl 2020-24 Cefnogi Pobl, Cefnogi'r Dyfodol wedi nodi gweledigaeth lle 'mae'n rhaid i ni sicrhau bod y bobl yr ydym yn eu cyflogi'n fedrus, yn hyfforddedig ac yn gryf eu cymhelliant i ymateb i'r newidiadau anodd sydd o'n blaenau. Mae angen i ni hefyd ddefnyddio ein capasiti o ran pobl yn y ffordd orau bosibl, a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer ein gofynion o ran y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol ac yn dylunio strwythurau a rolau ystwyth i ateb galwadau newidiol mewn ffyrdd cost-effeithiol'. Mae pum thema allweddol wedi cael eu hadnabod:
  - recriwtio a chadw'r goreuon (arloesol, uchelgeisiol ac eangfrydig);
  - ysbrydoli rhagoriaeth mewn gwasanaethau (gyda ffocws ar gwsmeriaid/dinasyddion a'r gymuned);
  - meithrin effeithiolrwydd sefydliadol (proffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda);
  - ennyn ymgysylltiad, datblygu a rheoli ein talent (gwerthfawrogi a datblygu ein pobl); a
  - datblygu sgiliau a chapasiti'r gweithlu (gwerthfawrogi a datblygu ein pobl).
- nid yw'r Cyngor wedi diweddaru ei Strategaeth Pobl 2020-24 i ymgorffori gwersi o'r pandemig. Mae rhaglen waith strategol yn cael ei diweddaru yn flynyddol i cefnogi'r Strategaeth Pobl 2020-24 ac yn adnabod prif flaenoriaethau o ran y gweithlu. Mae cyfle i integreiddio materion gweithlu gyda cynlluniau eraill y Cyngor gan gynnwys rhaglenni Moderneiddio, asedau a Carbon Sero Net.
- nid yw'r Strategaeth Pobl 2020-24 yn amlygu sut y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi ystyried y pum ffordd o weithio, fel a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr ac mae'n ymatebol i'r heriau o ran y gweithlu, ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu strategaethau integredig tymor hirach ac wedi cychwyn ar wneud hynny

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr heriau presennol o ran y gweithlu sy'n cynnwys recriwtio a chadw staff mewn meysydd penodol;
- mae'r Cyngor wedi cymryd camau gweithredu niferus i ymateb i heriau o ran y gweithlu, gan gynnwys:
  - gwneud y Cyngor yn gyflogwr deniadol i ddarpar gyflogeion;

- gweithio gyda'r coleg lleol i gynnwys profiad gwaith am bythefnos i gyflwyno myfyrwyr i'r sector gofal;
- symleiddio prosesau ymgeisio am swyddi a chyflwyno rolau generig i alluogi hyblygrwydd yn y gweithlu;
- gwneud telerau ac amodau'n llai caeth a chaniatáu i staff drefnu eu horiau gwaith lle mae anghenion y busnes yn caniatáu; a
- chydnabod bod angen gwella cyflog a statws mewn rhai swyddi hollbwysig.

- casglodd y Cyngor farn staff ynglŷn â Byw a Gweithio gyda COVID-19 ym mis Mehefin 2021, a oedd yn ystyried meysydd fel trefniadau gweithio, manteision a brofwyd, a dulliau cyfathrebu. Mae'r gyfradd ymateb uchel, sef 565 allan o 800 o staff sydd wedi'u lleoli mewn swyddfeydd, wedi darparu dealltwriaeth dda am y sefyllfa gyfredol a dewisiadau ar gyfer trefniadau gweithio yn y dyfodol.
- fe wnaeth yr holiadur ganfod manteision sydd i'w priodoli i weithio hybrid gan gynnwys, ymhlith eraill:
  - llai o deithio a chostau cysylltiedig i'r cyflogwr a chyflogeion;
  - ei chael yn haws canolbwyntio;
  - mwy o hyblygrwydd o ran pryd a sut y gwneir gwaith; a
  - chydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith.
- mae cynlluniau allweddol y Cyngor mewn meysydd megis y gweithlu ac asedau'n tueddu i fod yn rhai ar eu pennau eu hunain, er eu bod yn cydberthyn yn weithredol. Byddai hybu ffordd integredig o feddwl yn helpu'r Cyngor i greu'r cysylltiadau rhwng strategaethau perthnasol, a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cyflawni'r weledigaeth a strategaethau ar y cyfan sy'n llywio'r Cyngor cyfan yn yr un cyfeiriad.

## Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg ar faterion cyfredol o ran y gweithlu ond mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o ddata a defnyddio meincnodi i fesur llwyddiant cyfredol a thymor hwy ei fentrau mewn perthynas â'r gweithlu

16 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor yn monitro'r mesurau rheoli pobl o fewn ei gerdyn sgorio corfforaethol gan gynnwys niferoedd staff, absenoldeb byrdymor a hirdymor oherwydd salwch a throsiant.
- mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn adolygu trefniadau recriwtio i weld a yw trefniadau cyfredol yn gweithio ac a oes unrhyw wersi i'w dysgu.
- cynhelir Panel Recriwtio bob pythefnos i ystyried nifer y swyddi gweigion, a ble y maent yn eistedd o fewn y sefydliad. Mae'r panel hefyd yn cadw golwg ar unrhyw dueddiadau datblygol.

- mae’r Cyngor yn cynnal cyfweliadau ymadael i ddeall beth sy’n dylanwadu ar ymadawyr ac i ddeall sut i wneud pethau’n wahanol.
- Mae’r Cyngor yn cymryd rhan mewn grwpiau cenedlaethol a rhanbarthol sy’n ymwneud â’r gweithlu ac yn adrodd eu bod yn werthfawr.
- Mae gan y Cyngor bum mesur rheoli pobl yn adrodd am nifer staff, salwch, a throsiant. Nid yw’r mesurau wedi meincnodi â chynghorau eraill. Gall defnyddio ystod ehangach o fesurau a defnyddio data meincnodi taflu goleuni ar berfformiad unigol y Cyngor a gall adnabod cyfleoedd ar gyfer dysgu gan gyrff eraill.
- mae gan y Cyngor gyfle i adolygu trefniadau mewnol a rhanbarthol cyfredol, i adnabod y rhai sy’n rhoi gwerth ychwanegol, a meysydd lle mae gwelliant neu newidiadau’n ofynnol. Fodd bynnag, mae ar broses effeithiol i gynllunio’r gweithlu angen ystod lawn o ddata cyfredol, nid dim ond am ffactorau sydd yn effeithio ar gyflenwad y gweithlu ond hefyd y galwadau a osodir arno. Dim ond pan fo sefydliad wedi’i arfogi â’r wybodaeth hon y gall ddatblygu dull effeithiol o gynllunio’r gweithlu.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Ymateb y rheolwyr

**Teitl yr adroddiad:** Llamu Ymlaen – Cyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad cwblhau:** Awst 2022

**Cyfeirnod y ddogfen:** 3048A2022

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**<br>Mae angen i'r Cyngor arddangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan wreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig, wrth iddo:<br>• ddatblygu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer siâp a maint ei asedau tir ac adeiladau a'i weithlu yn y tymor byr, canolig a hir;<br>• datblygu strategaeth asedau sydd yn amlygu ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi'u hintegreiddio'n llawn â blaenoriaethau allweddol megis y rhaglenni Moderneiddio a Carbon Sero Net; | Yn y broses o ddatblygu a cymeradwyo cynllun 10 mlynedd - rheoli asedau corfforaethol yn unol a amcanion Cynllun y Cyngor. Bydd cyfrannu at gynllun net zero y Cyngor yn ganolog i'r cynllun rheoli asedau corfforaethol.<br><br>Datblygu strwythur rheoli eiddo ac asedau corfforaethol fydd yn cyfrannu at gyrraedd amcanion y cynllun rheoli asedau corfforaethol ac yn cynnwys gofynion strategol y Cyngor yn ogystal a cyfrannu at gyrraedd net zero erbyn 2030. | Mawrth 2023<br><br>Rhagfyr 2022 | Meilir Hughes<br><br>Huw Percy a Meilir Hughes |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy’n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | • diweddaru strategaeth y gweithlu sydd yn amlygu ystyriaeth o’r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi’u hintegreiddio’n llawn â blaenoriaethau allweddol megis y rhaglenni Moderneiddio a Carbon Sero Net; a<br>• datblygu cynlluniau cyflawni wedi’u costio. | Ymdrechir i ddiweddaru y strategaeth gweithlu i amlygu ystyriaethau o’r egwyddor datblygu cynaliadwy lle bo hynny yn bosib a’i integreiddio gyda blaenoriaethau allweddol eraill lle bo hynny’n bosibl ac yn berthnasol. | Ionawr 2023 | Carys Edwards gyda cefnogaeth Aelodau Tim AD |
| A2 | **Data a meincnodi**<br>Datblygu’r defnydd o ddata a meincnodi i gynllunio, gosod y gyllideb a monitro ac asesu llwyddiant tymor hwy ei fentrau o ran asedau a’r gweithlu. | Mae data eisoes yn cael ei goladu a meincnodi lle mae hynny yn bosib ac yn cael ei ystyried a’i ddatblygu gyda adolygiadau rheolaidd. | Gwaith tymor hir fydd yn esblygu dros amser ac o ganlyniad ddim yn gorffen. | Carys Edwards gyda cefnogaeth Aelodau Tim AD |